Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

# Monitro Cydraddoldeb

## Dadansoddiad o nodweddion staff a myfyrwyr mewn darparwyr Addysg Uwch yng Nghymru ar gyfer blynyddoedd academaidd 2015/16 i 2021/22

## 2015/16 i 2021/22

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

www.hefcw.ac.uk

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

## Cyflwyniad

1. Mae’r ddogfen hon yn cyflwyno dadansoddiad ysgrifenedig sy’n ymwneud â data am nodweddion personol oedran, rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd myfyrwyr a staff yn narparwyr AU Cymru a gyhoeddwyd yn ein dangosfwrdd cydraddoldeb ac amrywiaeth, y gellir ei weld gyda’r ddogfen hon ar ein tudalen we ystadegau cydraddoldeb ac amrywiaeth.

2. Yn sgîl presenoldeb gwerthoedd celloedd bychain mewn data anabledd ac ethnigrwydd ar gyfer staff a myfyrwyr mewn darparwyr AU yng Nghymru, ac i leihau’r risg o ddatgelu gwybodaeth am unigolion, cyflwynir data darparwyr AU ar lefel fwy cyfanredol na data ar gyfer sector Cymru yn ei gyfanrwydd.

3. Ar gyfer sector Cymru, cyflwynir data ar y lefel gyfanredol isaf fel y’u cesglir gan HESA ar gyfer anabledd staff, ethnigrwydd staff, anabledd myfyrwyr ac ethnigrwydd myfyrwyr. Ar gyfer darparwyr AU, cyflwynir data cyfanredol yn y grwpiau canlynol: ar gyfer anabledd; Anabl a Dim anabledd hysbys, ac ar gyfer ethnigrwydd; Asiaidd, Du. Cymysg, Arall a Gwyn.

4. Er ein bod yn cyhoeddi data darparwyr AU ar lefel fwy cyfanredol ar gyfer anabledd ac ethnigrwydd, rydym yn parhau i fonitro’r data hwn yn fewnol ar y lefel fwyaf manwl a lle gall fod gennym bryderon byddwn yn dadansoddi’r data ymhellach ac yn trafod ein canfyddiadau gyda darparwyr AU.

## Myfyrwyr

### Oedran

Sector Cymru

5. Y grŵp mwyaf o fyfyrwyr bob blwyddyn oedd y grŵp 18 i 20 oed. Yn 2016/17 a 2017/18 fe gynyddodd nifer a chyfran y myfyrwyr 18 i 20 oed, ond o 2018/19 ymlaen mae’r ffigyrau hyn wedi gostwng bob blwyddyn, ac eithrio yn 2021/22 pan gododd y nifer ychydig. Yn 2021/22, roedd tua thraean o’r myfyrwyr yn 18 i 20 oed.

6. Y grŵp lleiaf[1] o fyfyrwyr bob blwyddyn oedd y grŵp 25 i 29 oed. Yn 2021/22, roedd 14 y cant o’r myfyrwyr yn 25 i 29 oed.

7. Roedd tua chwarter y myfyrwyr yn 21-24 oed a thua chwarter yn 30 oed a throsodd, er bod y gyfran hon yn amrywio ychydig o un flwyddyn i’r llall.

8. Ar draws y cyfnod fe gynyddodd y tri grŵp oedran hŷn. Yn y grŵp 30 oed a throsodd y gwelwyd y twf absoliwt mwyaf, gyda’r nifer yn codi o 30,160 i 42,485, newid o 12,325 neu 40.9 y cant. Cynyddodd y grŵp oedran 25 i 29 oed yn ôl cyfran debyg, gan godi o 14,660 i 20,650, newid o 5,990 neu 40.9 y cant.

[1] Mae’r rhai 17 oed a throsodd wedi cael eu hanwybyddu at ddibenion y dadansoddiad hwn, yn bennaf am bod y niferoedd yn fach a bod cyfran fawr o’r rhai yn y grŵp oedran yma’n fyfyrwyr chweched dosbarth a oedd yn dilyn cyrsiau blas ar AU. Gall niferoedd y myfyrwyr yn y grŵp oedran yma amrywio o un flwyddyn i’r llall oherwydd lefelau gwahanol o gyfranogiad a darpariaeth.

Darparwyr AU yng Nghymru

9. Roedd y sefyllfa ym mhob darparwr AU yng Nghymru'n adlewyrchu patrwm y sector i raddau helaeth, er bod gwahaniaethau nodedig:

9.1. yn y Brifysgol Agored, lle'r oedd yn wir mai'r rhai 30 oed a throsodd oedd y grŵp mwyaf o bell ffordd a hwythau'n rhoi cyfrif am ychydig dros dair rhan o bump o'r holl fyfyrwyr, a'r rhai 25 i 29 oed oedd yr ail grŵp mwyaf, a hwythau'n rhoi cyfrif am oddeutu un rhan o bump o'r holl fyfyrwyr. Roedd y grŵp oedran 18 i 20 oed yn rhoi cyfrif am 5 y cant neu lai o'r holl fyfyrwyr bob blwyddyn. Er bod twf amlwg yn niferoedd y myfyrwyr ym mhob grŵp oedran tuag at ddiwedd y cyfnod, arhosodd proffil y cyfrannau'n weddol debyg.

9.2. ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Wrecsam, lle bu newid ym mhroffil oedran myfyrwyr ar draws y cyfnod.

9.3. ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, lle bu twf ym mhob grŵp oedran dros 20 oed, yn fwyaf nodedig yn y grŵp 30 oed a throsodd, tra bo niferoedd yn y grŵp oedran 18 i 20 oed wedi gostwng. Fe arweiniodd hyn at gynnydd yng nghyfrannau'r rhai yn y ddau grŵp oedran hŷn, ac at ostyngiad yng nghyfrannau'r rhai yn y ddau grŵp oedran iau ar draws y cyfnod. Ar ddechrau'r cyfnod y grŵp mwyaf, a hwythau'n rhoi cyfrif am bron i draean o'r myfyrwyr, oedd y grŵp oedran 18 i 20 ond ar ddiwedd y cyfnod hwn oedd y grŵp lleiaf a hwythau'n rhoi cyfrif am 15 y cant o'r myfyrwyr. Ar ddiwedd y cyfnod y grŵp mwyaf oedd y grŵp oedran 30 a throsodd, a hwythau'n rhoi cyfrif am 49 y cant o'r myfyrwyr.

9.4. ym Mhrifysgol Wrecsam, lle bu twf amlwg yn y rhai 30 oed a throsodd, a gostyngiad graddol yn y rhai 18 i 20 oed. Mae'r rhai 30 oed a throsodd yn cynrychioli'r gyfran fwyaf o fyfyrwyr ym mhob blwyddyn ond fe gynyddodd y gyfran o 34 y cant i 55 y cant ar draws y cyfnod, tra bo cyfran y rhai 18 i 20 oed wedi haneru ar draws y cyfnod o un rhan o bump i ychydig o dan un rhan o ddeg o'r holl fyfyrwyr. Ym mhob blwyddyn, y grŵp 30 oed a throsodd oedd y grŵp mwyaf.

9.5. ym Mhrifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Abertawe lle'r oedd cyfrannau yn y grŵp oedran 18 i 20 oed, er eu bod yn dilyn patrwm y sector, yn llawer mwy nag yn y rhan fwyaf o ddarparwyr AU eraill neu'r sector.

## Anabledd

Sector Cymru

10. Fe gododd nifer a chyfran y myfyrwyr a ddatganodd anabledd bob blwyddyn. Cododd y nifer o 15,445 i 24,605, cynnydd o 9,155 neu 59 y cant ac fe gododd y gyfran o 12.0 y cant i 16.5 y cant ar draws y cyfnod.

11. Anawsterau dysgu penodol a chyflyrau iechyd meddwl yw'r ddau fath o anabledd sydd fwyaf tebygol o gael eu datgan gan fyfyrwyr o hyd, a chyda'i gilydd mae'r

ddau fath yma o anabledd yn rhoi cyfrif am tua thair rhan o bump o’r anableddau a ddatgelwyd bob blwyddyn.

12. Er bod niferoedd wedi codi ar draws y cyfnod ar gyfer pob math o anabledd a ddatgelwyd, gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn niferoedd yn y rhai a ddatganodd gyflyrau iechyd meddwl, a gododd o 2,535 i 6,510, cynnydd o 3,975 neu 157 y cant. Y grŵp yma o fyfyrwyr a gynyddodd fwyaf o ran cyfran, gan godi ar draws y cyfnod o 2.0 y cant i 4.4 y cant o’r holl fyfyrwyr.

13. Bu codiadau mawr ar draws y cyfnod hefyd yn niferoedd y myfyrwyr a ddatganodd ddau neu fwy o gyflyrau a’r rhai a ddatganodd anawsterau dysgu penodol, gyda chynnydd o fwy na 1,000 o fyfyrwyr yn y ddau.

14. Er mai’r newidiadau mewn niferoedd y cyfeirir atynt uchod yw’r mwyaf, mae hefyd yn nodedig bod niferoedd wedi dyblu ar draws y cyfnod ar gyfer y rhai sy’n datgan anhwylder cyfathrebu Cymdeithasol neu anhwylder ar y sbectrwm Awtistig.

Darparwyr AU yng Nghymru

15. O ran newidiadau i nifer a chyfran y myfyrwyr a ddatganodd anabledd (o unrhyw fath), roedd y sefyllfa ym mhob darparwr AU yng Nghymru’n adlewyrchu patrwm y sector gan mwyaf, er bod gwahaniaethau nodedig:

15.1. ym Mhrifysgol Wrecsam, lle gwnaeth nifer a chyfran y myfyrwyr a ddatganodd anabledd amrywio ar draws y cyfnod, ond diweddu’r cyfnod yn is nag ar ddechrau’r cyfnod gan ostwng o 1,020 i 960, gostyngiad o 60 neu 6 y cant ac o 15.3 y cant i 12.8 y cant o’r holl fyfyrwyr.

15.2. ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, lle gwnaeth cyfran y myfyrwyr a ddatganodd anabledd ostwng bob blwyddyn yn nhair blynedd olaf y cyfnod er bod nifer y myfyrwyr a ddatganodd anabledd wedi codi bob blwyddyn.

16. Mae’r canlynol yn werth ei nodi hefyd:

16.1. gwelwyd y codiadau mwyaf ar draws y cyfnod yn nifer y myfyrwyr a ddatganodd anabledd yn y Brifysgol Agored, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Abertawe.

16.2. gwelwyd y codiadau mwyaf yn y gyfran ym Mhrifysgol Aberystwyth a’r Brifysgol Agored.

16.3. yn 2021/22, fe wnaeth dros un rhan o bump o’r myfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor ddatgan anabledd, tra bo dros chwarter wedi gwneud hynny yn y Brifysgol Agored.

## Ethnigrwydd

17. Mae’r adran hon yn dadansoddi cyfrannau’r myfyrwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol penodol allan o’r holl fyfyrwyr sy’n hanu o’r DU.

18. Mae cefndiroedd ethnig lleiafrifol y cyfeirir atynt yn yr adran hon yn ymwneud â chefndiroedd ethnig lleiafrifol nad ydynt yn wyn. Cesglir data ar gyfer y grŵp ethnig lleiafrifol Sipsiwn neu Deithwyr ond mae'r niferoedd yn fach[2] ac maent wedi'u cynnwys yn y nifer ar gyfer myfyrwyr Gwyn. Fel a nodwyd yn y cyflwyniad, er nad ydynt yn cael eu cyhoeddi ar wahân rydym yn monitro'r niferoedd hyn yn fewnol.

Sector Cymru

19. Myfyrwyr o gefndir Du Affricanaidd oedd y grŵp ethnig lleiafrifol mwyaf bob blwyddyn, tra bo myfyrwyr o gefndir Indiaidd yn cynrychioli'r ail grŵp ethnig lleiafrifol mwyaf bob blwyddyn.

20. Ar draws y cyfnod, bu cynnydd yn nifer a chyfran y myfyrwyr o bob grŵp ethnig lleiafrifol, ac eithrio myfyrwyr Tsieineaidd, lle na fu rhyw lawer o newid o gwbl yn y nifer na'r gyfran ar gyfer y grŵp yma.

21. Y grŵp â'r newid mwyaf yn y nifer a'r gyfran ar draws y cyfnod oedd myfyrwyr o gefndir Du Affricanaidd, a gododd o 1,760 i 2,955, newid o 1,195 neu 68 y cant, ac o 1.7 y cant i 2.4 y cant o fyfyrwyr sy'n hanu o'r DU. Roedd y newid mwyaf nesaf ar gyfer myfyrwyr Bangladeshaidd a gododd o 600 i 1,535, newid o 940 neu 157 y cant, ac o 0.6 y cant i 1.3 y cant o fyfyrwyr sy'n hanu o'r DU.

22. Bu cynnydd sylweddol yn nifer a chyfran y myfyrwyr o'r grŵp Bangladeshaidd yn 2017/18, gan godi o 820 yn 2016/17 i 1,405, cynnydd o 585 neu 72 y cant, ac o 0.8 y cant o'r myfyrwyr sy'n hanu o'r DU i 1.3 y cant. Hwn oedd y newid mwyaf mewn unrhyw nifer neu gyfran unigol mewn unrhyw grŵp neu flwyddyn ar draws y cyfnod. Digwyddodd hyn o ganlyniad i newid yn y ddarpariaeth ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, gweler isod.

23. Gwelwyd newidiadau mawr eraill ar draws y cyfnod mewn myfyrwyr o gefndir ethnig Arall ac o gefndir Pacistanaidd. Fe wnaeth y rhai o gefndir ethnig Arall fwy na dyblu ar draws y cyfnod gan godi o 710 i 1,580, cynnydd o 870 neu 122 y cant, ac fe gynyddodd y gyfran o 0.7 y cant i 1.3 y cant o fyfyrwyr sy'n hanu o'r DU. Bu niferoedd yn y grŵp Pacistanaidd bron â dyblu, gan godi o 870 i 1,665, cynnydd o 795 neu 91 y cant, tra bo'r gyfran wedi codi o 0.8 y cant i 1.4 y cant o fyfyrwyr sy'n hanu o'r DU.

Darparwyr AU yng Nghymru

24. Roedd y sefyllfa ym mhob darparwr AU yng Nghymru'n adlewyrchu patrwm y sector gan mwyaf, ac eithrio:

24.1. ym Mhrifysgol Aberystwyth, lle'r oedd yn wir mai myfyrwyr â chefndir ethnig Cymysg oedd y grŵp ethnig lleiafrifol mwyaf bob blwyddyn, ac ar draws y cyfnod bu gostyngiadau yn nifer y myfyrwyr o gefndir ethnig Du a chefndir ethnig Asiaidd; o 105 i 60, ac o 145 i 130 yn y drefn honno. Gostyngodd cyfran yr holl fyfyrwyr sy'n hanu o'r DU a oedd â chefndir ethnig DU hefyd, o 1.4 y cant i 1.0 y cant.

[2] Mewn darparwyr AU yng Nghymru roedd 10 o fyfyrwyr o gefndir Sipsiwn neu Deithwyr yn 2015/16, ac yn 2021/22 roedd y nifer yma wedi codi i 60.

24.2. yn y Brifysgol Agored, lle'r oedd yn wir mai myfyrwyr â chefndir ethnig Cymysg oedd y grŵp ethnig lleiafrifol mwyaf bob blwyddyn o 2017/18 ymlaen, ac er bod cynnydd mewn niferoedd ar draws y cyfnod ar gyfer y rhai o gefndir ethnig Du, fe ostyngodd y gyfran o 1.6 y cant i 1.1.

24.3. ym Mhrifysgol De Cymru, lle bu gostyngiad bach yn nifer y myfyrwyr o gefndir ethnig Asiaidd, o 750 i 745, er bod y gyfran ar gyfer y grŵp yma wedi cynyddu o 3.5 y cant i 4.0 y cant ar draws y cyfnod.

**Rhyw**

Sector Cymru

25. Roedd y mwyafrif o fyfyrwyr yn dal i fod yn fenywaidd, ac yn y rhan fwyaf o flynyddoedd fe gododd y gyfran a oedd yn fenywaidd ychydig. Yn 2021/22 roedd 56 y cant o fyfyrwyr yn fenywaidd.

26. Er bod cyfran y myfyrwyr a nododd ryw Arall yn fach iawn (0.3 y cant yn 2021/22), fe gododd nifer y myfyrwyr hyn ddengwaith, o 50 i 505 ar draws y cyfnod.

Darparwyr AU yng Nghymru

27. Roedd y sefyllfa ym mhob darparwr AU yng Nghymru'n adlewyrchu patrwm y sector gan mwyaf, lle parhaodd i fod yn wir mai benywaidd oedd y mwyafrif o fyfyrwyr. Fodd bynnag:

27.1. ym Mhrifysgol Abertawe a Grŵp Colegau NPTC gwrywaidd oedd y mwyafrif o fyfyrwyr, gyda chyfrannau'r myfyrwyr gwrywaidd yng Ngrŵp Colegau NPTC yn arbennig o uchel ar 80 y cant bob blwyddyn.

**Staff**

28. Nid yw data mewn perthynas â staff annodweddiadol yn cael eu cynnwys yn y dangosfwrdd ar hyn o bryd.

**Oedran**

Sector Cymru - academaidd

29. Roedd staff academaidd rhwng 31 a 60 oed yn bennaf, gyda grwpiau oedran o fewn yr ystod hon yn rhoi cyfrif ar y cyd am oddeutu 80 y cant o'r holl staff academaidd bob blwyddyn.

30. O 2017/18 ymlaen, y grŵp oedran 36 i 40 oedd y grŵp oedran mwyaf.

31. Ar draws y cyfnod, y ddau grŵp oedran y gwelwyd y cynnydd mwyaf ynddynt o ran nifer a chyfran oedd y grwpiau oedran 36 i 40 oed a 56 i 60 oed. Cododd y nifer yn y grŵp oedran 36 i 40 oed o 1,245 i 1,520, cynnydd o 275 neu 22 y cant, ac fe gododd y gyfran o 12.9 y cant o'r holl staff academaidd. Cododd y nifer yn y

grŵp oedran 56 i 60 oed o 975 i 1,160, cynnydd o 185 neu 19 y cant, gyda'r gyfran yn codi o 10.1 y cant i 11.4 y cant.

32. Roedd pedwar grŵp oedran y gwelwyd gostyngiad ynddynt o ran niferoedd ar draws y cyfnod, gyda'r gostyngiad mwyaf yn cael ei weld yn y grŵp oedran 26 i 30 oed a ostyngodd o 940 i 770, gostyngiad o 175[3] neu 18 y cant, a'r gyfran yn gostwng o 9.7 y cant i 7.5 y cant o'r holl staff academaidd.

Sector Cymru - anacademaidd

33. Roedd staff anacademaidd rhwng 26 a 55 oed yn bennaf, gyda grwpiau oedran o fewn yr ystod hon yn rhoi cyfrif ar y cyd am tua thri chwarter yr holl staff anacademaidd.

34. O 2016/17 ymlaen, y grŵp oedran 36 i 40 oed oedd y grŵp oedran mwyaf.

35. Ar draws y cyfnod, roedd gostyngiadau mawr mewn niferoedd (rhwng oddeutu 100 ac oddeutu 300 o staff) yn y pedwar grŵp oedran ieuengaf (35 oed ac iau), gyda'r gostyngiad mwyaf o ran nifer yn cael ei weld yn y grŵp oedran 21 i 25 oed, a ostyngodd o 910 i 595, gostyngiad o 315 neu 35 y cant, gyda'r gyfran yn gostwng o 8.3 y cant i 5.7 y cant o'r holl staff anacademaidd.

36. Ni chafwyd unrhyw gynnydd arbennig o fawr yn y niferoedd mewn unrhyw grŵp oedran, gyda'r ddau gynnydd mwyaf yn digwydd yn y grwpiau oedran 51 i 55 a 61 i 65. Cododd y nifer yn y grŵp oedran 51 i 55 oed o 1,235 i 1,305, cynnydd o 70 neu 6 y cant gyda'r gyfran yn codi o 11.2 y cant i 12.5 y cant o'r holl staff anacademaidd. Cododd y nifer yn y grŵp oedran 61 i 65 oed o 500 i 570, neu 14 y cant gyda'r gyfran yn codi o 4.5 y cant i 5.4 y cant o'r holl staff anacademaidd.

Darparwyr AU yng Nghymru - academaidd

37. Roedd y sefyllfa ym mhob darparwr AU yng Nghymru'n adlewyrchu patrwm y sector gan mwyaf lle'r oedd staff academaidd rhwng 31 a 60 oed yn bennaf. Fodd bynnag, roedd grwpiau oedran o fewn yr ystod hon yn rhoi cyfrif ar y cyfan am gyfran amrywiol o'r holl staff academaidd ym mhob darparwr, gyda'r gyfran yn amrywio rhwng 76 y cant ac 85 y cant ar draws darparwyr a blynyddoedd.

38. Roedd y grŵp oedran mwyaf ymhlith staff academaidd yn amrywio ar draws darparwyr a blynyddoedd hefyd, ac nid y grŵp oedran 36 i 40 oed oedd y mwyaf ym Mhrifysgol De Cymru, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant na Phrifysgol Wrecsam yn unrhyw flwyddyn. Yn y darparwyr hyn, er bod y grŵp oedran mwyaf yn amrywio o un flwyddyn i'r llall, ym mhob achos roedd y grŵp oedran mwyaf yn hŷn na'r grŵp oedran 36 i 40 oed.

39. Ar gyfer y rhan fwyaf o ddarparwyr ni fu unrhyw gynnydd na gostyngiadau arbennig o fawr yn unrhyw grŵp oedran penodol ymhlith staff academaidd, ar draws y cyfnod. Gwelwyd y cynnydd mwyaf ym Mhrifysgol De Cymru lle cynyddodd staff academaidd 36 i 40 oed o 140 i 240, cynnydd o 100 neu 70 y cant, gyda'r gyfran yn codi o 9.9 y cant i 13.9 y cant o'r holl staff academaidd. Bu

[3] Caiff yr holl ffigyrau eu cyfrifo gan ddefnyddio data heb ei dalgrynnu cyn cael eu talgrynnu ac felly gallai ymddangos fel pe baent yn wahanol i'r rhai a gyfrifwyd gan ddefnyddio ffigyrau wedi'u talgrynnu.

cynnydd hefyd yn nifer yr aelodau hyn o staff ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Abertawe. Cafwyd y gostyngiad mwyaf mewn staff academaidd ym Mhrifysgol Caerdydd ar gyfer y rhai 26 i 30 oed, a ostyngodd o 400 i 285, gostyngiad o 115 neu 29 y cant, gyda'r gyfran yn gostwng o 11.7 y cant i 8.4 y cant.

Darparwyr AU yng Nghymru - anacademaidd

40. Roedd y sefyllfa ym mhob darparwr AU yng Nghymru'n adlewyrchu patrwm y sector lle'r oedd staff anacademaidd rhwng 26 a 55 oed yn bennaf. Fodd bynnag, roedd grwpiau oedran o fewn yr ystod hon yn rhoi cyfrif ar y cyd am gyfran amrywiol o'r holl staff anacademaidd ym mhob darparwr, gan amrywio rhwng 67 y cant ac 82 y cant ar draws darparwyr a blynyddoedd. Roedd Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor ym mhen isaf yr ystod hon bob blwyddyn, gyda chyfrannau uwch mewn grwpiau oedran eraill na'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn y rhan fwyaf o flynyddoedd.

41. Roedd y grŵp oedran mwyaf ymhlith staff anacademaidd yn amrywio ar draws darparwyr a blynyddoedd, ac nid y grŵp oedran 36 i 40 oed oedd y mwyaf ym Mhrifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor na Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn unrhyw flwyddyn. Yn y darparwyr hyn, er bod y grŵp oedran mwyaf yn amrywio o un flwyddyn i'r llall, ac eithrio Prifysgol Aberystwyth yn 2015/16 a 2016/17, ym mhob achos roedd y grŵp oedran mwyaf yn hŷn na'r grŵp oedran 36 i 40 oed.

42. Ar gyfer rhai darparwyr ni fu unrhyw ostyngiadau na chynnydd arbennig o fawr yn y niferoedd ar gyfer unrhyw grŵp oedran penodol ymhlith staff anacademaidd ar draws y cyfnod; fodd bynnag, bu gostyngiadau mawr yn y grŵp oedran 21 i 25 oed ym Mhrifysgol De Cymru a Phrifysgol Aberystwyth, ac yn y grŵp oedran 31 i 35 oed ym Mhrifysgol De Cymru. Bu cynnydd mawr ym Mhrifysgol Abertawe yn y grwpiau oedran 31 i 35 oed a 36 i 40 oed. Mae mawr yma'n golygu newid mewn nifer sydd rhwng 100 a 120.

**Anabledd**

Sector Cymru - academaidd

43. Fe wnaeth nifer a chyfran y staff academaidd a ddatganodd anabledd godi bob blwyddyn. Cododd y nifer o 400 i 665, cynnydd o 265 neu 67 y cant, ac fe gododd y gyfran o 4.3 y cant i 6.8 y cant o'r holl staff academaidd, ar draws y cyfnod.

44. Afiechyd neu gyflwr iechyd hirdymor ac anhawster dysgu penodol oedd y ddau fath o anabledd a oedd fwyaf tebygol o gael eu datgan gan staff academaidd, gyda'r ddau ar y cyd yn rhoi cyfrif am ychydig yn llai na hanner yr holl anableddau a ddatganwyd gan staff academaidd bob blwyddyn.

45. Y ddau fath o anabledd a gynyddodd fwyaf ar draws y cyfnod, mewn nifer a chyfran, oedd afiechyd neu gyflwr iechyd hirdymor ac anhawster dysgu penodol. Fe gododd nifer y staff academaidd a ddatganodd anhawster dysgu penodol o 65 i 140, cynnydd o 75 neu 111 y cant, ac fe gododd y gyfran o 0.7 y cant i 1.4 y

cant o’r holl staff academaidd. Cododd y nifer a ddatganodd afiechyd neu gyflwr iechyd hirdymor o 105 i 180, cynnydd o 75 neu 69 y cant, ac fe gododd y gyfran o 1.1 y cant i 1.8 y cant o’r holl staff academaidd.

Sector Cymru - anacademaidd

46. Fe gododd nifer y staff anacademaidd a ddatganodd anabledd bob blwyddyn, ac o 2016/17 ymlaen, fe gododd y gyfran bob blwyddyn hefyd. Cododd y nifer o 675 i 970, cynnydd o 290 neu 43 y cant, ac fe gododd y gyfran o 6.5 y cant i 9.5 y cant o’r holl staff anacademaidd, ar draws y cyfnod.

47. Afiechyd neu gyflwr iechyd hirdymor ac anhawster dysgu penodol oedd y ddau fath o anabledd a oedd fwyaf tebygol o gael eu datgan gan staff anacademaidd, gyda’r ddau’n rhoi cyfrif ar y cyd am oddeutu 45 y cant o’r holl anableddau a ddatganwyd gan staff anacademaidd bob blwyddyn.

48. Y mathau o anabledd a gynyddodd fwyaf ar draws y cyfnod, mewn nifer a chyfran, oedd cyflwr iechyd meddwl, dau gyflwr neu fwy ac anhawster dysgu penodol. Cododd nifer y staff anacademaidd a ddatganodd gyflwr iechyd meddwl o 65 i 155, cynnydd o 95 neu 149 y cant, ac fe gododd y gyfran o 0.6 y cant i 1.5 y cant o’r holl staff anacademaidd. Cododd y nifer a ddatganodd ddau gyflwr neu fwy o 80 i 145, cynnydd o 65 neu 81 y cant, ac fe gododd y gyfran o 0.8 y cant i 1.4 y cant o’r holl staff academaidd. Cododd y nifer a ddatganodd anhawster dysgu penodol o 120 i 185, cynnydd o 65 neu 53 y cant, ac fe gododd y gyfran o 1.2 i 1.8 y cant o’r holl staff anacademaidd.

Darparwyr AU yng Nghymru - academaidd

49. Mewn darparwyr AU unigol yng Nghymru fe gosodd nifer a chyfran y staff academaidd a ddatganodd anabledd yn y rhan fwyaf o flynyddoedd, yn y rhan fwyaf o ddarparwyr. Ar draws y cyfnod fe gododd y nifer a’r gyfran yn y rhan fwyaf o ddarparwyr ac eithrio Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Wrecsam, lle’r oedd y nifer ar ddiwedd y cyfnod yr un fath ag ar y dechrau; fodd bynnag, gostyngodd y gyfran o 7.6 y cant i 6.0 y cant ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Y rheswm dros hyn oedd cynnydd yn nifer y staff academaidd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd a ddatganodd nad oedd ganddynt unrhyw anabledd hysbys. Cafodd y gyfran ar gyfer Prifysgol Wrecsam ei chelu oherwydd niferoedd bychain.

50. Yn 2021/22, roedd cyfran y staff academaidd mewn darparwyr AU yng Nghymru a ddatganodd anabledd yn amrywio o 5.6 y cant i 9.0 y cant, gyda chyfran Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd yn is na chyfran y sector (5.6 y cant a 6.0 y cant yn y drefn honno), a’r gyfran uchaf o 9.0 y cant i’w gweld ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Darparwyr AU yng Nghymru - anacademaidd

51. Mewn darparwyr AU unigol yng Nghymru fe gododd nifer a chyfran y staff anacademaidd a ddatganodd anabledd yn y rhan fwyaf o flynyddoedd, yn y rhan fwyaf o ddarparwyr. Ar draws y cyfnod fe gododd y nifer a’r gyfran yn yr holl ddarparwyr ac eithrio Prifysgol Wrecsam a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd. Ym Mhrifysgol Wrecsam roedd y nifer ar ddiwedd y cyfnod yr un fath ag ar y

dechrau; fodd bynnag cafodd y gyfran ei chelu oherwydd niferoedd bychain. Ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd gostyngodd y gyfran o 8.3 y cant i 8.0 y cant; fodd bynnag fe gynyddodd y niferoedd.

52. Yn 2021/22, roedd cyfran y staff anacademaidd mewn darparwyr AU unigol yng Nghymru a ddatganodd anabledd yn amrywio o 8.0 y cant i 11.2 y cant, gyda chyfran Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Caerdydd yn is na chyfran y sector (8.0 y cant, 8.8 y cant a 9.2 y cant yn y drefn honno), a'r gyfran fwyaf o 11.2 y cant i'w gweld ym Mhrifysgol Bangor. Fel a nodwyd, cafodd y gyfran ym Mhrifysgol Wrecsam ei chelu.

**Ethnigrwydd**

53. Mae cefndiroedd ethnig lleiafrifol y cyfeirir atynt yn yr adran hon yn ymwneud â chefndiroedd ethnig lleiafrifol nad ydynt yn wyn. Cesglir data ar gyfer y grwpiau ethnig lleiafrifol Sipsiwn neu Deithwyr a chefndir Gwyn Arall ond mae'r niferoedd yn eithriadol o fach[4].

Sector Cymru - academaidd

54. Cododd nifer y staff academaidd o gefndir ethnig lleiafrifol bob blwyddyn, ac fe gododd y gyfran bob blwyddyn o 2017/18 ymlaen. Cododd y nifer o 955 i 1,350, cynnydd o 395 neu 41 y cant, ac fe gododd y gyfran o 10.7 y cant i 14.7 y cant o'r holl staff academaidd ar draws y cyfnod.

55. Roedd staff academaidd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn fwyaf tebygol o fod o gefndir ethnig Tsieineaidd, Indiaidd neu Arall, gyda'r rhain yn rhoi cyfrif ar y cyd am fwy na hanner yr holl staff academaidd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, bob blwyddyn.

56. Ar draws y cyfnod bu cynnydd yn nifer a chyfran y staff academaidd o bob cefndir ethnig lleiafrifol ac eithrio cefndir ethnig Arall lle gostyngodd y nifer a'r gyfran a chefndir Asiaidd Arall lle arhosodd y gyfran yr un fath, a chefndir Cymysg – Gwyn a Du Caribïaidd lle arhosodd y nifer yr un fath. Cafodd y cyfrannau eu celu ar gyfer rhai categorïau bychain.

57. Y cefndir ethnig lleiafrifol y gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y niferoedd ohono ymhlith staff academaidd oedd Cefndir Indiaidd a gododd o 115 i 220, cynnydd o 105 neu 92 y cant, gyda'r gyfran yn codi o 1.3 y cant i 2.4 y cant o'r holl staff academaidd. Gwelwyd y codiadau mwyaf nesaf mewn staff academaidd o gefndiroedd Du Affricanaidd a Tsieineaidd. Cododd nifer y staff academaidd o gefndir Du Affricanaidd o 60 i 125, cynnydd o 65 neu 116 y cant, ac fe gododd y gyfran o 0.7 y cant i 1.4 y cant o'r holl staff academaidd. Cododd nifer y staff o gefndir ethnig Tsieineaidd o 215 i 280, cynnydd o 65 neu 31 y cant ac fe gododd y gyfran o 2.4 y cant i 3.1 y cant o'r holl staff academaidd.

[4] Mae cymhwyso'r fethodoleg talgrynnu'n golygu nad yw'n bosibl gweld unrhyw niferoedd ac eithrio ar lefel y sector yn 2021/22 pan oedd 5 aelod o staff academaidd a 5 aelod o staff anacademaidd o gefndir Sipsiwn neu Deithwyr.

58. Gostyngodd nifer y staff o gefndir ethnig Arall o 250 i 185, gostyngiad o 65 neu 26 y cant, a gostyngodd y gyfran o 2.8 y cant i 2.0 y cant o'r holl staff academaidd.

Sector Cymru - anacademaidd

59. Cododd nifer a chyfran y staff anacademaidd o gefndir ethnig lleiafrifol bob blwyddyn o 2018/19 ymlaen. Ar draws y cyfnod, cododd y nifer o 465 i 545, cynnydd o 75 neu 17 y cant, ac fe gododd y gyfran o 4.4 y cant i 5.5 y cant o'r holl staff anacademaidd.

60. Roedd staff anacademaidd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn fwyaf tebygol o fod o gefndir ethnig Arall, Tsieineaidd, Indiaidd neu o gefndir Asiaidd Arall, gyda'r rhain yn rhoi cyfrif ar y cyd am fwy na hanner yr holl staff anacademaidd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol bob blwyddyn ac eithrio yn 2021/22, pan oedd bron yn hanner.

61. Roedd niferoedd yn y rhan fwyaf o grwpiau ethnig lleiafrifol eraill yn weddol isel, ac ychydig iawn o newid a fu yn y nifer mewn unrhyw grŵp ar draws y cyfnod, ac eithrio ar gyfer staff o gefndir Cymysg – Gwyn ac Asiaidd a gododd o 15 i 50 ar draws y cyfnod gyda'r gyfran yn codi o 0.2 y cant yn 2016/17 i 0.5 y cant ar ddiwedd y cyfnod. Cafodd y gyfran ar gyfer 2015/16 ei chelu oherwydd niferoedd bychain.

Darparwyr AU yng Nghymru - academaidd

62. Fe gododd nifer a chyfran y staff academaidd o gefndir ethnig lleiafrifol mewn rhai blynyddoedd neu yn y rhan fwyaf o flynyddoedd yn y rhan fwyaf o ddarparwyr AU yng Nghymru; fodd bynnag, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant oedd yr unig ddarparwr lle cododd y nifer a'r gyfran bob blwyddyn.

63. Ar draws y cyfnod fe gododd nifer y staff academaidd o gefndir ethnig lleiafrifol ym mhob darparwr ac eithrio Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Wrecsam; fodd bynnag roedd y gostyngiad yn y nifer yn y ddau ddarparwr hyn yn fach.

64. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn nifer y staff academaidd o gefndir ethnig lleiafrifol ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Ym Mhrifysgol Caerdydd fe gododd y nifer o 300 i 475 ac fe gododd y gyfran o 10.1 y cant i 16.1 y cant. Ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant fe gododd y nifer o 25 i 135 ac fe gododd y gyfran o 4.1 y cant i 18.1 y cant.

65. Ar lefel y sector, staff academaidd o gefndir Asiaidd oedd y grŵp ethnig lleiafrifol mwyaf. Mewn darparwyr AU unigol yng Nghymru, felly yr oedd hi hefyd ym mhob darparwr ac ym mhob blwyddyn, ac eithrio Prifysgol Abertawe yn nwy flynedd gyntaf y cyfnod pan oedd yn wir mai'r rhai o gefndir ethnig Arall oedd y grŵp mwyaf.

66. Staff academaidd o gefndir Asiaidd oedd y grŵp a gynyddodd fwyaf mewn nifer a chyfran ar draws y cyfnod ar gyfer y sector hefyd. Felly yr oedd hi mewn DAUwyr unigol hefyd ac eithrio ym Mhrifysgol De Cymru, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Wrecsam. Ym Mhrifysgol De Cymru, y rhai o gefndir Du

gynyddodd fwyaf mewn nifer a chyfran. Ym Mhrifysgol Aberystwyth y rhai o gefndir Du oedd yr unig grŵp ethnig lleiafrifol i gynyddu mewn nifer; fodd bynnag, ar gyfer y rhai o gefndir Asiaidd y gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn cyfran. Ym Mhrifysgol Bangor, y rhai o gefndir ethnig Arall oedd yr unig grŵp i gynyddu mewn nifer, ac ar gyfer y rhai o gefndir Asiaidd ac o gefndir ethnig Arall y gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn cyfran. Ym Mhrifysgol Wrecsam ni fu unrhyw gynnydd mewn staff academaidd o unrhyw gefndir ethnig lleiafrifol, ond fe gynyddodd cyfran y staff academaidd o gefndir ethnig Cymysg.

Darparwyr AU yng Nghymru - anacademaidd

67. Roedd nifer a chyfran y staff anacademaidd o gefndir ethnig lleiafrifol yn is nag ar gyfer staff academaidd ym mhob blwyddyn yn y cyfnod. Felly yr oedd hi hefyd wrth ystyried darparwyr AU unigol yng Nghymru ac eithrio ym Mhrifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant lle cafwyd rhai blynyddoedd lle'r oedd y niferoedd yn debyg; fodd bynnag, roedd y gyfran yn dal i fod yn is nag ar gyfer staff academaidd yn y blynyddoedd hynny.

68. Mewn darparwyr AU unigol yng Nghymru, fe amrywiodd niferoedd a chyfrannau ymhlith staff anacademaidd ar draws y cyfnod, gan ei gwneud hi'n anodd adnabod unrhyw batrymau penodol, er bod niferoedd a chyfrannau i'w gweld yn fwy tebygol o godi tuag at ddiwedd y cyfnod.

69. Ar lefel y sector roedd staff anacademaidd o gefndir ethnig lleiafrifol yn fwyaf tebygol o fod o gefndir Asiaidd. Felly yr oedd hi yn y rhan fwyaf o ddarparwyr AU unigol yng Nghymru ar gyfer pob blwyddyn yn y cyfnod hefyd, ac eithrio ym Mhrifysgol Abertawe lle'r oedd yn wir mai'r rhai o gefndir ethnig Arall oedd y grŵp ethnig lleiafrifol mwyaf am bum mlynedd gyntaf y cyfnod ac ym Mhrifysgol Aberystwyth lle'r oedd yn wir mai cefndiroedd Asiaidd a Chymysg oedd y grwpiau mwyaf yn 2016/17 a 2017/18.

70. Ar lefel y sector, ar draws y cyfnod, gwelwyd y twf mwyaf mewn niferoedd ar gyfer staff anacademaidd o gefndir ethnig Cymysg, gyda'r niferoedd yn codi o 80 i 125 neu 56 y cant a'r gyfran yn codi o 0.8 y cant i 1.3 y cant. Mewn darparwyr AU unigol yng Nghymru, ychydig iawn o newid a fu gan bod y niferoedd yn fach. Gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn niferoedd ar gyfer staff anacademaidd o gefndir ethnig Cymysg ym Mhrifysgol Caerdydd, gyda'r nifer yn codi o 30 i 55, a gwelwyd y gostyngiad mwyaf ym Mhrifysgol Abertawe lle gostyngodd nifer y staff anacademaidd o gefndir ethnig Arall o 60 i 35 ar draws y cyfnod.

## Rhyw

71. Roedd niferoedd y staff a nododd ryw Arall yn fach iawn ar lefel y sector ac mae'r canrannau wedi cael eu celu.

Sector Cymru - academaidd

72. Ym mhob blwyddyn yn y cyfnod gwrywaidd oedd y mwyafrif o staff academaidd.

73. Fe amrywiodd nifer a chyfran y staff academaidd a oedd yn wrywaidd ar draws y cyfnod, ond fe erbyn diwedd y cyfnod roeddent wedi cynyddu ychydig mewn nifer

o 5,200 i 5,310, cynnydd o 110 neu 2 y cant, ac wedi gostwng mewn cyfran o 53.8 y cant i 52.2 y cant.

74. Er bod niferoedd wedi cynyddu, fe ostyngodd y gyfran am bod nifer y staff academaidd benywaidd wedi cynyddu yn ôl cyfradd fwy, gan godi o 4,470 i 4,855, newid o 385 neu 9 y cant, a'r gyfran wedi codi o 46.2 y cant i 47.7 y cant o'r holl staff academaidd[5].

Sector Cymru - anacademaidd

75. Ym mhob blwyddyn yn y cyfnod roedd mwyafrif y staff anacademaidd yn fenywaidd.

76. Fe amrywiodd nifer a chyfran y staff anacademaidd a oedd yn fenywaidd ar draws y cyfnod, ond erbyn diwedd y cyfnod roeddent wedi gostwng mewn nifer o 6,900 i 6,550, gostyngiad o 355 neu 5 y cant, tra bo'r gyfran ar ddiwedd y cyfnod ar yr un lefel ag ar ddechrau'r cyfnod, sef 62.7 y cant.

77. Gostyngodd niferoedd y staff anacademaidd gwrywaidd hefyd, o 4,100 i 3,885, gostyngiad o 215 neu 5 y cant, ac erbyn diwedd y cyfnod roedd y gyfran hon hefyd yn debyg i'r gyfran ar ddechrau'r cyfnod (gyda'r gostyngiad yn llai na degfed o ganran).

Darparwyr AU yng Nghymru - academaidd

78. Ym mhob blwyddyn yn y cyfnod roedd y mwyafrif o staff academaidd yn wrywaidd ym Mhrifysgol De Cymru, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Abertawe. Ym mhob blwyddyn, neu ym mron pob blwyddyn, roedd y mwyafrif o staff academaidd yn fenywaidd ym Mhrifysgol Bangor, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Wrecsam.

79. Ar draws y cyfnod bu cynnydd mawr yn nifer y staff academaidd gwrywaidd ym Mhrifysgol De Cymru, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Abertawe (cynnydd o rhwng 85 a 200); fodd bynnag, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant oedd yr unig ddarparwr lle gwnaeth y nifer a'r gyfran gynyddu, gyda'r nifer yn codi o 325 i 410 a'r gyfan yn codi o 46.3 y cant i 52.2 y cant gan olygu bod staff gwrywaidd yn y mwyafrif am y tro cyntaf yn y cyfnod yn 2021/22. Yn y ddau ddarparwr arall fe ostyngodd cyfran y staff academaidd gwrywaidd, am bod cynnydd cyfrannol mwy wedi bod mewn staff academaidd benywaidd

80. Ar draws y cyfnod bu gostyngiadau mawr yn nifer y staff academaidd gwrywaidd ym Mhrifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Caerdydd. Ym Mhrifysgol Aberystwyth fe ostyngodd y nifer o 470 i 355, gostyngiad o 115 neu 24 y cant, ac fe ostyngodd y gyfran o 55.2 y cant i 50.4 y cant o'r holl staff academaidd. Ym Mhrifysgol Caerdydd, fe ostyngodd y nifer o 1,890 i 1,785, gostyngiad o 105 neu 6 y cant, ac fe ostyngodd y gyfran o 55.4 y cant i 52.6 y cant o'r holl staff academaidd.

[5] Heb gynnwys staff academaidd annodweddiadol.

Darparwyr AU yng Nghymru - anacademaidd

81. Mewn darparwyr AU unigol yng Nghymru, roedd patrwm tebyg i'r sector yn yr ystyr bod y mwyafrif o staff anacademaidd yn fenywaidd, ym mhob darparwr ym mhob blwyddyn.

82. Ar draws y cyfnod bu gostyngiadau mawr yn nifer y staff anacademaidd benywaidd ym Mhrifysgol De Cymru, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (rhwng 90 a 235). Er bod nifer y staff anacademaidd benywaidd wedi gostwng ym Mhrifysgol De Cymru ac ym Mhrifysgol Aberystwyth, fe gododd y gyfran.

83. Bu cynnydd mawr yn nifer y staff anacademaidd benywaidd ym Mhrifysgol Abertawe, a gododd 215; fodd bynnag fe ostyngodd y gyfran.

**Effaith data â chategorïau anhysbys ar y dadansoddiad**

**Myfyrwyr**

**Oedran**

84. Roedd nifer y myfyrwyr ag oedran anhysbys mewn darparwyr AU yng Nghymru'n eithriadol o fach ac yn annhebygol o fod wedi cael unrhyw effaith ar ffigyrau na chasgliadau pe bai wedi bod yn bosibl eu categoreiddio'n grwpiau oedran. Gostyngodd nifer y myfyrwyr mewn darparwyr AU yng Nghymru ag oedran anhysbys o 25 i 0 ar draws y cyfnod.

**Anabledd**

85. Nid yw'n bosibl cofnodi myfyrwyr ag anabledd anhysbys, gan bod y data'n cael eu casglu yn ôl y math o anabledd neu ddim anabledd hysbys. Caiff y rhai heb anabledd a'r rhai ag anabledd anhysbys eu cofnodi fel rhai heb anabledd hysbys.

**Ethnigrwydd**

Sector Cymru

86. Ar draws y cyfnod, fe ostyngodd nifer y myfyrwyr sy'n hanu o'r DU yr oedd eu hethnigrwydd yn anhysbys o 2,625 i 1,985, gostyngiad o 645 neu 25 y cant, ac fe ostyngodd cyfran y myfyrwyr sy'n hanu o'r DU yr oedd eu hethnigrwydd yn anhysbys o 2.5 y cant i 1.6 y cant. Er bod y cyfrannau hyn yn swnio'n fach, wrth ystyried maint y niferoedd yn erbyn nifer y rhai o gefndir ethnig lleiafrifol, gallai'r effaith bosibl fod yn fawr. Er na wyddys unrhyw beth am ethnigrwydd y myfyrwyr hyn, neu'r tebygolrwydd o ran eu cefndir ethnig, yn yr achos eithafol eu bod i gyd o gefndir ethnig lleiafrifol, gallai hyn olygu bod cyfrannau'r myfyrwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yr adroddwyd arnynt yn rhy isel o 21 y cant yn 2015/16 ac o 11 y cant yn 2021/22.

Darparwyr AU yng Nghymru

87. Ar draws y cyfnod, fe ostyngodd nifer y myfyrwyr sy'n hanu o'r DU yr oedd eu hethnigrwydd yn anhysbys mewn chwe darparwr AU, fe gododd mewn pump, ac

roedd yn 0 trwy gydol y cyfnod ar gyfer un. Bu cynnydd arbennig o fawr yn nifer y myfyrwyr yr oedd eu hethnigrwydd yn anhysbys yn y Brifysgol Agored ac ym Mhrifysgol Aberystwyth, gyda'r niferoedd yn cynyddu o 85 i 290 ac o 165 i 295 yn y drefn honno. Cafwyd gostyngiadau arbennig o fawr yn nifer y myfyrwyr hyn ym Mhrifysgol De Cymru, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (gostyngiadau rhwng 105 a 535). Cafwyd y gostyngiad mwyaf nodedig ym Mhrifysgol De Cymru lle gostyngodd y nifer o 645 i 110.

## Rhyw

88. Nid yw'n bosibl cofnodi rhyw anhysbys; gwrywaidd, benywaidd neu arall yw'r unig gategorïau sydd ar gael.

## Staff

## Oedran

89. Ni chofnodwyd unrhyw aelodau o staff ag oedran anhysbys.

## Anabledd

Sector Cymru - academaidd

90. Ar draws y cyfnod, fe ostyngodd nifer y staff academaidd nad oedd eu hanabledd yn hysbys o 480 i 350, gostyngiad o 130 neu 27 y cant, ac fe ostyngodd cyfran y staff academaidd nad oedd eu hanabledd yn hysbys o 5.0 y cant i 3.4 y cant, er bod nifer arbennig o fawr yn 2020/21 pan oedd 925 neu 9.2 y cant o staff academaidd nad oedd eu hanabledd yn hysbys. Wrth ystyried maint y niferoedd nad oedd eu hanabledd yn hysbys yn erbyn nifer y rhai ag anabledd hysbys, gallai'r effaith bosibl fod yn fawr. Er na wyddys o gwbl pa un a oes gan y staff hyn anabledd ai peidio, na'r tebygolrwydd bod ganddynt anabledd, yn yr achos eithafol bod ganddynt i gyd anabledd gallai hyn olygu bod cyfrannau'r staff academaidd ag anableddau yr adroddwyd arnynt yn rhy isel o 35 y cant (yn 2021/22) a 61 y cant (yn 2020/21).

Darparwyr AU yng Nghymru - academaidd

91. Ar draws y cyfnod, fe ostyngodd nifer y staff academaidd nad oedd eu hanabledd yn hysbys mewn pedwar darparwr AU, fe gododd mewn dau, ac roedd ar yr un lefel ar ddiwedd y cyfnod ag ydoedd ar y dechrau mewn dau. Ar draws y cyfnod ni fu unrhyw gynnydd na gostyngiadau arbennig o fawr yn nifer y staff academaidd nad oedd eu hanabledd yn hysbys ac eithrio ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd lle gostyngodd nifer yr aelodau hyn o staff o 165 i 70 a lle gostyngodd y gyfran o 23 y cant i 9 y cant. Ym Mhrifysgol Caerdydd, er bod y nifer wedi gostwng o 90 i 55 ar draws y cyfnod, mae'n nodedig bod 630 neu 19 y cant o staff academaidd yn 2020/21 yr oedd eu hanabledd yn anhysbys[6].

[6] O 2020/21 ymlaen, daeth yn bosibl cofnodi staff nad ydynt yn ymateb i gais am wybodaeth am anabledd fel "Ddim Ar Gael" ar gofnod staff HESA. Yn 2019/20 ac mewn blynyddoedd cynharach nid oedd hi'n bosibl cofnodi hyn ar wahân ac roedd yr aelodau hyn o staff yn cael eu cofnodi fel rhai â "Dim

Sector Cymru - anacademaidd

92. Ar draws y cyfnod, fe ostyngodd nifer y staff academaidd nad oedd eu hanabledd yn hysbys o 520 i 275, gostyngiad o 245 neu 47 y cant, ac fe ostyngodd cyfran y staff anacademaidd nad oedd eu hanabledd yn hysbys o 4.7 y cant i 2.6 y cant, er bod nifer arbennig o fawr yn 2020/21 pan oedd 915 neu 8.8 y cant o staff anacademaidd nad oedd eu hanabledd yn hysbys. Fel a nodwyd uchod, wrth ystyried maint y niferoedd nad oedd eu hanabledd yn hysbys yn erbyn nifer y rhai ag anabledd hysbys, gallai'r effaith bosibl fod yn fawr. Yn yr achos eithafol bod ganddynt i gyd anabledd gallai hyn olygu bod cyfrannau'r staff anacademaidd ag anableddau yr adroddwyd arnynt yn rhy isel o 22 y cant (yn 2021/22) a 51 y cant (yn 2020/21).

Darparwyr AU yng Nghymru - anacademaidd

93. Ar draws y cyfnod, fe ostyngodd nifer y staff anacademaidd nad oedd eu hanabledd yn hysbys mewn pedwar darparwr AU, fe gododd mewn tri, ac roedd ar yr un lefel ar ddiwedd y cyfnod ag ydoedd ar y dechrau mewn un. Roedd y gostyngiadau mwyaf yn nifer y staff anacademaidd ag nad oedd eu hanabledd yn hysbys ym Mhrifysgol De Cymru ac ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, lle gostyngodd nifer yr aelodau hyn o staff o 255 i 90 ac o 125 i 55 yn y drefn honno. Ym Mhrifysgol Caerdydd, er bod y nifer wedi gostwng o 65 i 40 ar draws y cyfnod, mae'n nodedig bod 670 neu 19 y cant o staff anacademaidd yn 2020/21 nad oedd eu hanabledd yn hysbys[7].

## Ethnigrwydd

Sector Cymru - academaidd

94. Ar draws y cyfnod, fe gododd nifer y staff academaidd nad oedd eu hethnigrwydd yn hysbys o 750 i 1,040, cynnydd o 290 neu 38 y cant, ac fe gododd cyfran y staff academaidd nad oedd eu hethnigrwydd yn hysbys o 7.8 y cant i 10.2 y cant, er bod y niferoedd a'r cyfrannau'n is rhwng 2016/17 a 2019/20 nag ar ddechrau'r cyfnod. Fel a ystyriwyd yn flaenorol ar gyfer anabledd, wrth ystyried maint y niferoedd nad oedd eu hethnigrwydd yn hysbys yn erbyn nifer y rhai ag ethnigrwydd hysbys, gallai'r effaith bosibl fod yn fawr. Yn yr achos eithafol eu bod i gyd o gefndir ethnig lleiafrifol gallai hyn olygu bod cyfrannau'r staff academaidd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yr adroddwyd arnynt yn rhy isel o 33 y cant (yn 2017/8) a 44 y cant (yn 2015/16).

Darparwyr AU yng Nghymru - academaidd

95. Ar draws y cyfnod, fe ostyngodd nifer y staff academaidd nad oedd eu ethnigrwydd yn hysbys mewn pedwar darparwr AU, fe gododd mewn tri, ac roedd ar yr un lefel ar ddiwedd y cyfnod ag ydoedd ar y dechrau mewn un. Ar

---

anabledd hysbys" ynghyd â staff a ddywedodd nad oedd anabledd ganddynt. Yn y dadansoddiad hwn, mae'r categori "Ddim yn hysbys" yn cynnwys "Wedi gwrthod rhoi gwybodaeth" a "Ddim ar gael", felly mae toriad mewn parhad rhwng y blynyddoedd 2019/20 a 2020/21. Ar ben hynny, yn 2020/21 roedd gan Brifysgol Caerdydd nifer uchel o staff lle cofnodwyd anabledd fel "Ddim ar gael" a fyddai wedi cael ei gynnwys fel "Dim anabledd hysbys" yn flaenorol. Fe wnaed ymdrechion sylweddol i gael yr wybodaeth hon gan arwain at leihad yn nifer y staff a oedd wedi'u cofnodi fel "Ddim ar gael" yn 2021/22.

[7] Cyfeiriwch at droednodyn 6.

draws y cyfnod ni fu unrhyw gynnydd na gostyngiadau arbennig o fawr yn nifer y staff academaidd nad oedd eu hethnigrwydd yn hysbys ac eithrio ym Mhrifysgol De Cymru lle cododd nifer yr aelodau hyn o staff o 60 i 400 a lle cododd y gyfran o 4 y cant i 23 y cant.

Sector Cymru - anacademaidd

96. Ar draws y cyfnod, fe gododd nifer y staff anacademaidd nad oedd eu hethnigrwydd yn hysbys o 485 i 530, cynnydd o 50 neu 10 y cant, ac fe gododd cyfran y staff anacademaidd nad oedd eu hethnigrwydd yn hysbys o 4.4 y cant i 5.1 y cant, er bod y niferoedd a'r cyfrannau'n is rhwng 2016/17 a 2020/21 nag ar ddechrau'r cyfnod. Fel a ystyriwyd yn flaenorol, wrth ystyried maint y niferoedd nad oedd eu hethnigrwydd yn hysbys yn erbyn nifer y rhai ag ethnigrwydd hysbys, gallai'r effaith bosibl fod yn fawr. Yn yr achos eithafol eu bod i gyd o gefndir ethnig lleiafrifol gallai hyn olygu bod cyfrannau'r staff anacademaidd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yr adroddwyd arnynt yn rhy isel o 34 y cant (yn 2017/18) ac o 51 y cant (yn 2015/16).

Darparwyr AU yng Nghymru - anacademaidd

97. Ar draws y cyfnod, fe ostyngodd nifer y staff anacademaidd nad oedd eu hethnigrwydd yn hysbys mewn chwe darparwr AU, fe gododd mewn un, ac roedd ar yr un lefel ar ddiwedd y cyfnod ag ydoedd ar y dechrau mewn un. Fodd bynnag, roedd y gwahaniaethau'n fach heblaw am y rhai ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Ym Mhrifysgol Caerdydd fe gododd nifer y staff anacademaidd nad oedd eu hethnigrwydd yn hysbys o 235 i 370, ac fe gododd y gyfran o 6.9 y cant i 10.5 y cant, er bod y niferoedd a'r cyfrannau'n is rhwng 201/17 a 2018/19 nag ar ddechrau'r cyfnod. Ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant fe ostyngodd nifer y staff anacademaidd nad oedd eu hethnigrwydd yn hysbys o 85 i 15 ac fe ostyngodd y gyfran o 9.5 y cant i 2.4 y cant.

## Rhyw

98. Nid yw'n bosibl cofnodi rhyw anhysbys; gwrywaidd, benywaidd neu arall yw'r unig gategorïau sydd ar gael.